**Quality Welsh Food Certification Ltd**
Gorseland, North Road, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HE
Phone: (01970) 636688 Fax: (01970) 624049 E-mail: enquiries@qwfc.co.uk

# Conditions Governing the Use of Certification Marks

## *Introduction*

The objective of a QWFC Certification Scheme is to provide for food, drink, agricultural and fisheries products produced in Wales a means by which purchasers and through them consumers can have confidence in the products of producers holding a valid Certificate or Letter of Approval issued by QWFC.

To denote their status as an Approved Producer under a QWFC Certification Scheme the producer is permitted to use the appropriate Scheme Mark and QWFC Logo on their product, literature, stationery, and advertising.

In addition, where the Scheme is part of QWFC‘s accredited scope under EN45011, the QWFC Logo may be accompanied by the UKAS Accreditation Mark following approval by QWFC on its proposed use.

The following is a guide to the application of Scheme Accreditation Marks.

## *Scheme Marks*

### General

The Marks relative to Schemes under which QWFC provide certification and the QWFC Logo may only be used in approved form. An approved producer may only use the Mark or Marks relative to the Scheme(s) & products for which he holds a valid Certificate or Letter of Approval and which appear on that document or documents where more than one approval is held.

### Use on products

The Scheme Mark and / or QWFC logo may be applied to product packaging or labelling where the product has been produced wholly in accordance with the requirements of the relative Scheme Standard.

The producer’s own business name as shown on the Certificate or Letter of Approval must also be clearly identifiable on the same package or label. Alternatively where a producer has his own brand mark for the business this may be used to accompany the Scheme Mark.

Where the Scheme Mark and / or QWFC Logo is used in association with a purchaser’s name or brand mark the name of the approved producer must be easily identifiable from the product packaging and/or the purchase records.

### Use on stationery, literature, and advertising

The approved producer may use the Scheme Mark and / or QWFC Logo on stationery relative to the unit address shown on the Certificate or Letter of Approval. This stationery may include letterheads, invoices, despatch documents etc.

Use on literature and advertising materials must not be done in such a way as to imply approval of products or units of the business for which no valid Certificate or Letter of Approval is held.

In the event of the improper use of the Mark or misleading references to certificates held, the approved producer will be required to withdraw the offending material and, if required by QWFC, publish a correction. Where no such action is undertaken the QWFC Governing Board may initiate legal action.

### *QWFC and Accreditation Marks*

The UKAS Accreditation Mark may only be used in conjunction with the QWFC Logo.

Where an approved producer wishes to use the UKAS Accreditation Mark application must be made in writing to the QWFC Executive Director accompanied by a detailed proposal on their use. The proposal shall provide examples of the documents/labels/packages on which the marks would appear and their size and location on each.

Once approved QWFC will provide masters of the Marks. The approved producer will be responsible for ensuring reproduction strictly in accordance with these masters and in single colour which should be the predominant *ink* colour of the document or, in the case of pre-printed letterhead paper, the predominant colour of the letterhead.

As for Scheme Marks incorrect or misleading use will require immediate correction and withdrawal of offending material.Where no such action is taken the QWFC Governing Board may initiate legal action.

### *Control of Use*

It is in the interest of consumers, purchasers, approved producers, and QWFC to ensure that the Certification Marks are used correctly and provide confidence in the integrity of the Schemes they represent.

QWFC will therefore, as part of its continuing assessment process, audit regularly the use of Marks by approved producers.

In the event that Certification is withdrawn from a producer, that producer shall immediately cease use and distribution of any packaging, labels, stationery, literature, and advertising bearing the Scheme or Accreditation Mark.

Ardystio Bwyd Cymreig o Ansawdd Cyf
Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HE
Ffôn: (01970) 636688 Ffacs: (01970) 624049 E-bost: **enquiries@qwfc.co.uk**

# Yr Amodau sy'n Rheoli'r Defnydd o Nodau Ardystio

## *Cyflwyniad*

Mae Cynllun Ardystio gan QWFC yn ymwneud â bwyd, diod, a chynhyrchion amaethyddol a physgodfeydd o Gymru. Ei amcan yw galluogi prynwyr a defnyddwyr i deimlo'n hyderus ynghylch cynhyrchion y cynhyrchwyr hynny sydd â Thystysgrif neu Lythyr o Gymeradwyaeth gan QWFC.
Er mwyn dynodi ei statws fel Cynhyrchydd Cymeradwy dan Gynllun Ardystio QWFC, mae gan y cynhyrchydd yr hawl i ddefnyddio'r Nod Cynllun priodol a logo WWFC ar ei gynnyrch, deunydd darllen, papur ysgrifennu, a hysbysebion.
Yn ogystal, pan fo'r Cynllun yn rhan o faes achredédig QWFC o dan EN45011, gellir defnyddio Nod Achredu UKAS (Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Gyfunol) ynghyd â logo QWFC, os yw QWFC wedi rhoi sêl ei fendith. Isod, ceir canllawiau ynghylch defnyddio Nodau Cynllun Achredu.

## *Nodau Cynllun*

### Cyffredinol

Ni ellir defnyddio'r Nodau sy'n berthynol i Gynlluniau y mae QWFC yn ardystio ar eu cyfer na logo QWFC ond mewn ffordd a gafodd ei chymeradwyo. Ni all cynhyrchydd cymeradwy ond defnyddio'r Nod neu Nodau sy'n berthynol i'r Cynllun(iau) a chynhyrchion y mae ganddo Dystysgrif neu Lythyr o Gymeradwyaeth dilys ar eu cyfer ac sy'n ymddangos ar y ddogfen honno - neu ddogfennau os cafwyd mwy nag un gymeradwyaeth.

### Defnyddio nodau ar gynhyrchion

Gellir defnyddio'r Nod Cynllun a/neu logo QWFC ar ddefnydd pacio neu labeli os cafodd y cynnyrch ei gynhyrchu'n llwyr yn unol â gofynion y Safon Cynllun perthynol.
Rhaid i enw busnes y cynhyrchydd fel y mae'n ymddangos ar y Dystysgrif neu Lythyr o Gymeradwyaeth fod yn amlwg hefyd ar yr un pecyn neu label. Neu, os oes gan gynhyrchydd ei nod brand ei hun ar gyfer y busnes, gellir defnyddio hwnnw ynghyd â'r Nod Cynllun.
Os yw'r Nod Cynllun a/neu Logo QWFC yn cael eu defnyddio mewn perthynas ag enw neu nod brand prynwr, rhaid i enw'r cynhyrchydd cymeradwy ymddangos yn glir ar ddefnydd pacio'r cynnyrch a/neu'r cofnodion prynu.

### Defnyddio nodau ar bapur ysgrifennu, deunydd darllen a hysbysebion

Gall y cynhyrchydd cymeradwy ddefnyddio'r Nod Cynllun a/neu Logo QWFC ar bapur ysgrifennu mewn perthynas â chyfeiriad yr uned a ddangosir ar y Dystysgrif neu Lythyr o Gymeradwyaeth. Gall y papur ysgrifennu hwn gynnwys penawdau llythyron, anfonebau, dogfennau anfon, etc.
Ni ddylid defnyddio nod ar ddeunydd darllen a defnyddiau hysbysebu mewn ffordd sy'n awgrymu cymeradwyaeth i gynhyrchion neu unedau o'r busnes na chafodd Dystysgrif neu Lythyr o Gymeradwyaeth.
Os yw'r Nod yn cael ei gamddefnyddio neu os gwneir cyfeiriadau camarweiniol at dystysgrifau a dderbyniwyd, rhaid i'r cynhyrchydd cymeradwy dynnu'n ôl y deunydd tramgwyddus ac, os yw QWFC yn mynnu hynny, rhaid iddo gyhoeddi cywiriad. Os nad yw hynny'n digwydd, gall y bydd Bwrdd Llywodraethu QWFC yn cymryd camau cyfreithiol.

## *Nodau QWFC a Nodau Achredu*

Ni ellir defnyddio Nod Achredu UKAS ond ar y cyd â Logo QWFC.
Os yw cynhyrchydd cymeradwy yn dymuno defnyddio Nod Achredu UKAS rhaid iddo wneud cais ysgrifenedig i Reolwr Gyfarwyddwr QWFC, ynghyd â manylion ynghylch sut y bwriedir defnyddio'r nod. Hefyd rhaid cynnwys enghreifftiau o'r dogfennau/ labeli/ pecynnau lle byddai'r nodau'n ymddangos, gan ddynodi maint y nodau a'u lleoliad ar bob un.

Unwaith y caiff cais ei gymeradwyo, bydd QWFC yn darparu prif batrymau o'r Nodau. Bydd y cynhyrchydd cymeradwy yn gyfrifol am ofalu bod y nodau'n cael eu hatgynhyrchu yn unol â'r prif batrymau hyn ac mewn un lliw, sef prif liw'r *inc* ar y ddogfen neu, yn achos papur â phennawd a gafodd ei argraffu o flaen llaw, y prif liw yn y pennawd.
Os yw Nodau Cynllun yn cael eu camddefnyddio neu eu defnyddio mewn ffordd gamarweiniol, rhaid unioni'r sefyllfa ar unwaith a rhaid tynnu'n ôl y deunydd tramgwyddus. Os nad yw hynny'n digwydd, gall y bydd Bwrdd Llywodraethu QWFC yn cymryd camau cyfreithiol.

### *Rheoli'r defnydd o nodau*

Mae o fudd i ddefnyddwyr, prynwyr, cynhyrchwyr cymeradwy a QWFC i ofalu bod y Nodau Ardystio yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn creu hyder yng nghywirdeb y Cynlluniau a gynrychiolir ganddynt.
Felly, bydd QWFC, fel rhan o'i broses asesu parhaus yn archwilio'n gyson y defnydd a wneir o Nodau gan gynhyrchwyr cymeradwy.
Pe digwydd i Ardystiad gael ei dynnu'n ôl oddi ar gynhyrchydd, bydd y cynhyrchydd dan sylw yn rhoi'r gorau ar unwaith i ddefnyddio a dosbarthu unrhyw becynnau, labeli, papur ysgrifennu, deunydd darllen, a hysbysebion sy'n arddangos y Nod Cynllun neu Nod Achredu